# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 5

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2023

Amser: 14.00 - 16.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13582) yn:

http://senedd.tv/cy/13582

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | Adam Cooper, Greenbelt<br>Professor Cristina Leston-Bandeira, Prifysgol Leeds<br>Colin Thomson, Greenbelt<br>Robin Waddell, Greenbelt |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS.

## 2 Sesiwn gyda'r Athro Cristina Leston-Bandeira

Clywodd y Pwyllgor ganfyddiadau ymchwil am y rhwystrau i ymgysylltu â seneddau gan yr Athro Cristina Leston-Bandeira.

## 3 P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Robin Waddell, Cyfarwyddwr Datblygu Greenbelt, Adam Cooper, Cyfarwyddwr Cyfreithiol Grŵp Greenbelt a Colin Thomson, Rheolwr Gyfarwyddwr Greenbelt.

## 4 Deisebau newydd

### 4.1 P-06-1377 Dylid gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad arfaethedig Parc Solar Caenewydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chadw ar agor nes y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Gweinidog yn dilyn casgliad y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

### 4.2 P-06-1378 Rydym am i gymorthdaliadau fferm gael eu hymestyn i arddwyr bach a garddwyr marchnad

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chadw ar agor nes y bydd canlyniad yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael.

### 4.3 P-06-1379 Gwahardd gwerthu e-sigaréts untro

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chadw ar agor a chytunodd i ofyn am ddiweddariad ar y mater ymhen 12 mis.

### 4.4 P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi cwrdd â'r deisebydd yn y gorffennol ynglŷn â mater ar wahân.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog i ddarparu sylwadau'r deisebwyr ac i ofyn am ymateb i'r cwestiynau a godwyd.

Cytunodd yr Aelodau hefyd i ofyn i'r gwasanaeth ymchwil a oes cynlluniau i ddefnyddio bathodynnau glas fel dull adnabod i bleidleisio mewn etholiadau.

### 4.5 P-06-1383 Dylid oedi prosiectau solar a gwynt ar y tir dros 10 MW hyd nes y caiff potensial llawn ynni gwynt ar y môr ei gynnwys

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod ymateb y Gweinidogion i'r Pwyllgor yn glir ac nid ydynt yn cefnogi moratoriwm. Daeth yr Aelodau i'r casgliad, yng ngoleuni hyn, na allai'r Pwyllgor fynd â'r mater a godwyd yn y ddeiseb ymhellach a chytunodd i gau'r ddeiseb.

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 5.1 P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru

Datganodd Jack Sargeant AS a Peredur Owen Griffiths AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'r ddau ohonynt yn adnabod y deisebydd.

Cyfeiriodd Peredur Owen Griffiths AS bobl at ei ddatganiad buddiannau hefyd a'i fod wedi bod ar seminar wythnos waith pedwar diwrnod â thâl o'r blaen.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros nes y bydd gwaith yr is-grwpiau wedi dod i ben ar y mater hwn.

### 5.2 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru ar ôl

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ac estynnodd ddiolch i Tassia am ei hymgysylltiad parhaus â’r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu’n ôl at y Gweinidog er mwyn cael eglurhad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Rhwydwaith Canser ac i ofyn am ymateb i’r sylwadau pellach a godwyd gan Tassia.

### 5.3 P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i rannu cwestiynau pellach y deisebydd ac i ofyn am ymateb.

### 5.4 P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu’r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros am ganlyniad ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar fynediad cyfartal at addysg a gofal plant i blant a phobl ifanc anabl, ac aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad, cyn ystyried a yw'r materion a godwyd yn y ddeiseb wedi cael sylw.

### 5.5 P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn ar unwaith

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a mynegodd ei siom ynghylch y diffyg cynnydd ers cau’r ysbyty’n gynharach eleni ar 13 Ebrill. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gofyn am ddiweddariad chwarterol ar ba gamau a gymerwyd i recriwtio staff, a gofyn am ymateb i'r cwestiynau pellach a ddarparwyd gan y deisebydd.

### 5.6 P-06-1356 Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a nododd ganlyniad cadarnhaol y ddeiseb. Diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd, y rhai a lofnododd y ddeiseb ac ymgyrchwyr lleol am eu cefnogaeth i'r ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

Wrth gloi'r ddeiseb, roedd y Pwyllgor yn dymuno cofio Ashley Rogers ac eraill sydd wedi colli eu bywydau'n drasig ar y gyffordd hon ac anfonwyd eu cydymdeimlad at eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u hanwyliaid.

### 5.7 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â'r ddeiseb P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am amser ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn. Yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Busnes, cytunodd yr Aelodau, os bydd yr atebion i gwestiynau a godir ynghylch y ddau ddeisebydd yn cael eu canfod yn y gwaith craffu ar y gyllideb, yna bydd y cais am ddadl yn cael ei dynnu'n ôl.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn dwyn y ddwy ddeiseb i'w sylw a gofyn iddynt ystyried y materion a godwyd yn y ddwy ddeiseb yn eu gwaith craffu ar y gyllideb.

### 5.8 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â deiseb P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am amser ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn. Yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Busnes, cytunodd yr Aelodau, os bydd yr atebion i gwestiynau a godir ynghylch y ddau ddeisebydd yn cael eu canfod yn y gwaith craffu ar y gyllideb, yna bydd y cais am ddadl yn cael ei dynnu'n ôl.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn dwyn y ddwy ddeiseb i'w sylw a gofyn iddynt ystyried y materion a godwyd yn y ddwy ddeiseb yn eu gwaith craffu ar y gyllideb.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod y dystiolaeth - P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd a chytunwyd y byddai'n cyhoeddi adroddiad ar y dystiolaeth a glywyd yn ymwneud â'r ddeiseb hon.